Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **16 Mehefin 2020** - cyfarfod o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

1-06/20 Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams; Cyng Ffion Gwyn; Cyng. Alice Roberts

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-06/20 Ymddiheuriadau

Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price

Croesawyd y Cyng Alice Roberts i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Tref. Nodwyd ei bod wedi llenwi ei ffurflen derbyn swydd. Croesawyd y Cyng Sian Williams ar ôl cyfnod o absenoldeb. Diolchwyd ganddi am y gwaith rhagorol oedd wedi cael ei gyflawni gan y Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn diweddaf.

Diolchwyd i'r Cyng Dr Ian Rees am dreialu'r dechnoleg ar gyfer y cyfarfod ac am osod trefniadau yn ei lle ar gyfer cyfarfod cyntaf o bell y Cyngor Tref o dan reoliadau newydd Llywodraeth Cymru yn sgil Covid 19.

3-06/20: Datgan diddordeb

Y Cyng. Wayne Roberts ar gyfer agendwm 7 06/20: Ceisiadau Cynllunio (a) 20/0206/35/LL

4-06/20 Cadarnhau cofnodion cyfarfodydd Mis Mawrth 2020: 10 Mawrth 2020 a chyfarfod brys 17 Mawrth 2020

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-06/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-06/20: Adroddiad ar faterion ers y cyfarfod diwethaf

Roedd adroddiad y Clerc ar faterion ers cyfarfodydd Mis Mawrth, a'r penderfyniadau sydd wedi ei gymryd o dan reoliadau dirprwyo yn sgil Covid-19 wedi ei gylchredeg. Gweler yr adroddiad yn Atodiad 1. Tynnwyd sylw at y canlynol:

1. **Cynllun Cymorth COVID-19 y Cyngor Tref**

   Roedd yn dda nodi fod pob dim yn ei le gyda'r cynllun i gynnig cymorth i drigolion dref Criccieth. Diolchwyd yn fawr iawn i'r Cyng. Nan Davies-Hughes am ei gwaith yn cydgordio hyn ac i'r gwirfoddolwyr yn y gymuned. Roedd ymateb a chefnogaeth busnesau'r dref i gynnig gwasanaeth yn wych ac mae mwy o fusnesau arlwyo wedi cychwyn agor ar gyfer bwyd i gasglu erbyn hyn. Diolchwyd iddynt am ei gwasanaeth.

2. **Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2020 i'r Cyngor Tref**

   Nodwyd llwyddiant y Cyngor Tref i ennill dwy wobr fenter orau gan Un Llais Cymru am y Fenter Twristiaeth Orau ar gyfer prosiect Strydoedd Unigryw Criccieth ac Adroddiad Blynyddol Gorau (ar y cyd gyda'r Drenewydd). Roedd dwy erthygl wedi ymddangos yn y Cambrian News a chydnabyddiaeth yn y Ffynnon. Roedd nifer o lythyron a negeseuon llongyfarch wedi'i derbyn. Dywedodd Prif Weithredwr Un Llais Cymru, Mr Lyn Cadwallader "Congratulations to you and your Council for its successes in this year's National Awards - your Council is a shining example of how very local councils are delivering high quality services to its residents - great work and keep it up".

3. **Cofio Cyfraniad Criccieth – Diwrnod VE 8 Mai 2020**

   O ganlyniad i'r pellhau cymdeithasol oherwydd COVID-19 cafodd gweithgareddau cymunedol gan gynnwys te prynhawn i'r hen a'r ifanc yn y Neuadd Goffa, dadorchuddio wal o babis gweu a chrochet eu gohirio. Fodd bynnag rhannwyd allbynnau o'n cyflawniadau ar fideo 3 munud o'r holl waith a baratowyd gan y Cyng. Ffion Gwyn ar y cyfryngau cymdeithasol ac YouTube Criccieth Life: Mi wnaeth Ffion hefyd baentio portread meddylgar "Ffenest/Window" i nodi'r achlysur. Diolchwyd yn fawr iawn i Ffion am ei gwaith ychwanegol ar y prosiect.

4. **Penderfyniad i ohirio Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref**

   Oherwydd COVID-19 ac mewn cydymffurfiaeth gyda rheoliadau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru penderfynwyd gohirio cynnal cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref a oedd i'w gynnal ar 12 Mai 2020. Golyga hyn bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a apwyntiwyd yng nghyfarfod Mai 2019 yn aros yn eu swyddi nes i ni gynnal cyfarfod blynyddol a bod aelodau'r is-bwyllgorau yn aros hefyd.

5. **Proses i ddewis cwmni i ddarparu safle We newydd Cyngor Tref Criccieth**

6. **Trwydded ar y cyd dros dro ar gyfer yr Ardd Natur a'r Ardd Gloynod Byw**

7. **Ceisiadau Cynllunio**

8. **Clwb Drama Llanystumdwy**

9. **Gwaith Cyngor Gwynedd**

10. **Derbyniadau a Thaliadau Ebrill a Mai**

11. **Cais am ad-daliad TAW ar gyfer 2019-20 wedi ei gyflwyno**

Penderfyniad:

Derbyniwyd a chymeradwywyd yr adroddiad (Atodiad 1) a diolchwyd i'r Clerc amdano.

7 06/20: Ceisiadau Cynllunio

a. C20/0206/35/LL Cais Llawn i godi tŷ deulawr ynghyd a chreu ffordd fynediad a llecynnau parcio – Helidon, Lôn Merllyn, Criccieth LL52 0HY

Penderfyniad:

Danfon sylwadau: Mae'r Cyngor Tref yn disgwyl bod y tŷ ar gyfer pobl leol.

8-06/20: Archwiliad Cyfrifon Y Cyngor Tref ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20

1. **Archwiliad Mewnol**

Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad mewnol gan yr archwilydd a apwyntiwyd gan y Cyngor a bod adroddiad wedi'i dderbyn yn cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn. Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor.

Yn sgil amgylchiadau anodd a dyrys COVID-19 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw, roedd yr archwiliad yn cydnabod bod angen i'r Cyngor wyro o'r rheoliadau sefydlog/ariannol er sicrhau parhad busnes ac er lles y Cynghorwyr a staff a thrigolion yr ardal. Yn ogystal, roedd mesurau pellhau cymdeithasol y Llywodraeth wedi cyfyngu gallu'r archwiliwr i gyflawni archwiliad llawn o'r holl ddogfennau ac felly roedd barn yr archwiliad yn seiliedig ar sampl yn unig. Dengys yr adroddiad bod yr amcanion rheolaethol a brofwyd yn foddhaol.

Nodwyd barn yr archwiliad:

"Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Tref Criccieth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd."

Roedd yr archwiliwr yn diolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad. Diolchwyd i'r Clerc a'r archwilwyr mewnol am eu gwaith.

2. Archwiliad Allanol – ffurflen flynyddol

Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ac arwyddo'r adrannau perthnasol o'r ffurflen archwiliad allanol ar gyfer 2019/20 - a oedd wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen ail-ddatgan y ffigurau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn daeth i ben 31 Mawrth 2019 oherwydd camgymeriad yn ffigurau costau staff (roedd angen ychwanegu 2 fis o gyflog a threth at gostau staff 2018/19 yn ogystal â dileu costau teithio a thaliad at SLCC). O - y ffigwr cywir oedd £8,695 (ac nid £7474). Golyga hyn newid cyfanswm taliadau eraill o ££50,769 i £49,548. Roedd yr archwilwyr mewnol wedi gwirio hyn. Nodwyd y byddai'r Clerc yn trefnu bod yr hysbysiad priodol yn ymddangos ar safle We'r Cyngor Tref a nodwyd gan yr Archwilwyr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfrifon. Roedd angen cyflwyno'r wybodaeth archwilio i'r BDO a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano erbyn 10 Gorffennaf 2020. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn copi o'r tabl o'r prif wahaniaethau rhwng 2018/19 a 2019/20 a thaflen datganiad cyfrifon 2019/20.

Penderfyniad:

Derbyniwyd y wybodaeth ac ystyriwyd a chymeradwywyd y ffurflen flynyddol gan gynnwys cymeradwyo ac ail-ddatgan y ffigurau ar gyfer y flwyddyn daeth i ben 31 Mawrth 2019 a chyflwyno'r ffurflen derfynol i'r Cyngor i'w harwyddo gan y Clerc a'r Cadeirydd.

9-06/20 Cynllun Cymunedol Criccieth:

1. Cynnig ar gyfer Prosiect Cymunedol Natur

Cylchredwyd papur gan y Clerc yn cynnig bod y Cyngor Tref, fel rhan o'r Cynllun Cymunedol i gefnogi llesiant trigolion a chynllun cefnogi bioamrywiaeth y Cyngor Tref a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2019 yn cefnogi sefydlu prosiect Cymunedol Natur . Roedd trwydded dros dro ar y cyd wedi ei sefydlu rhwng y Cyngor Tref a Ffrindiau Gardd Natur ar gyfer yr Ardd Natur a Gardd Gloynod Byw. Y bwriad oedd ymestyn y gwaith i gael rhandiroedd cymunedol gyda thŷ gwydr eco a thwnnel poly a fyddai yn gynaliadwy yn

ariannol, yn amgylcheddol ecolegol ac ar agor i drigolion Criccieth i fwynhau. Roedd yr angen am ofod cymunedol o'r fath wedi'i ddarganfod drwy drafod gydag unigolion a chyfuniad o grwpiau yn gefnogol i gael Rhandiroedd Cymunedol gan gynnwys: Ffrindiau Gardd Natur, Criccieth yn ei Blodau, a'r Grŵp Amgylcheddol. Yn ogystal roedd Ysgol Gynradd Treferthyr yn cefnogi'r datblygiad. Byddai'r prosiect yn ffordd i gael pobl hŷn i weithio gyda phobl ifanc: gweithio rhwng cenedlaethau. Hefyd byddai'n cefnogi ffocws yr ysgol ar les meddylio, a gwella rhyngweithio cymdeithasol er mwyn annog pobl i gydweithio ac i symud i gwricwlwm a gychwynnir yn fwy gan blant. Nodwyd hefyd, bod y darn tir o dan sylw ar gyfer rhandiroedd yn hanesyddol arfer bod yn rhandiroedd.

Penderfyniad

Bod y Cyngor Tref:

- Yn gwneud cais cynllunio ar gyfer Rhandiroedd Cymunedol ar gost o £190 fel rhan o'r Cynllun Cymunedol; roedd brwdfrydedd mawr ar gyfer hyn yn y dref a grwpiau ymroddgar yn gefnogol a gweithgar.
- Yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r grwpiau yn y gymuned i wireddu gan gynnwys chwilio am ffordd i'w ariannu – roedd ffrwd arian gan Dreftadaeth y Loteri newydd ei gyhoeddi.
- Yn ystyried gwneud cais i'r Gronfa Cyfalaf Lleol mewn partneriaeth ar gyfer Natur i ariannu Gardd Natur Criccieth, Gloynod Byw a Rhandiroedd Cymunedol a gwaith Criccieth yn Ei Blodau o gwmpas y dref. Gellir cael partneriaeth er enghraifft i gynnwys Ffrindiau Gardd Natur, Criccieth yn Ei Blodau, y Grŵp Amgylcheddol, Ysgol Treferthyr a'r Ysgol Feithrin. Cytunwyd i sefydlu is-grŵp i gydlynu cais gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau cymunedol gan gynnwys Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Nan Davies-Hughes a'r Clerc ar ran y Cyngor Tref i ystyried y posibiliadau ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref. Enw posib i'r prosiect gyda chyswllt hanesyddol yn ôl Map Y Degwm 1838 oedd Cae Crwn,sef yr enw i'r ardal o gwmpas yr Ardd Natur ac yn estyn dros y rheilffordd bron i'r Stryd Fawr: ***#Natur Cae Crwn – neu #Natur Prosiect Cymunedol Cae Crwn Cricieth #Natur Cae Crwn Community Project Criccieth.***

2. Map ar gyfer y Dre

Roedd y Cyngor Tref wedi cytuno, fel rhan o'n Cynllun Cymunedol bod cael map o dref Criccieth yn un o'r blaenoriaethau. Roedd y Cyngor yn ffodus iawn bod y Cyng. Ffion Gwyn wedi dylunio map deniadol iawn sydd hefyd yn cynnig cylchdeithiau gwahanol o gwmpas y dref sef rhai Hanes, Creadigol a Hwyl. Nodwyd bod Rich Wilcock, Pam Mayo (ar ran Fforwm Busnes Criccieth), Y Cadeirydd, y Cyng Ffion Gwyn a'r Clerc yn cwrdd ar fideo i drafod materion yn rheolaidd cyn dod a chynnig ac opsiynau wedi'i gostio ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor Tref. Bydd hyn yn cynnig argymhellion ar gyfer copïau printiedig o'r map (dwyieithog) a hefyd lleoliadau ar gyfer gosod y map ar fyrddau gwybodaeth o gwmpas y dref. Nodwyd y bydd angen cymeradwyaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer lleoliadau i'r mapiau o gwmpas y dref.

Penderfyniad

Diolch yn fawr iawn am y gwaith a nodi y bydd opsiynau gyda chostau yn dod gerbron y Cyngor Tref i'w ystyried.

10-06/20: Cais am gael Camera Cylch Cyfyng – Lôn Parc, Criccieth

Ystyriwyd cais gan breswylwyr Lôn Parc i ofyn a fedr y Cyngor Tref wneud cais ar ei rhan i Gyngor Gwynedd i osod camera CCTV yn y rhan hon o'r dref er mwyn ceisio dal troseddwyr sydd wedi difrodi eu ceir yn rheolaidd.

Penderfyniad

Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn am fwy o fanylion am y cynllun a holi'r preswylwyr am fwy o dystiolaeth i ddeall mwy am y sefyllfa.

11-06/20 Derbyniadau

Dim

12-06/20: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £9.80 (siec 101406)
- Cyflog y Clerc (Mai) £779.95 (siec 101407)
- SLCC Enterprises Ltd £36.00 (siec 101408)
- Costau Clerc £133.63 (siec 101409)
- Cyngor Gwynedd £190.00 (siec 101410)*

*Cyngor wedi cytuno i dalu £190 i Gyngor Gwynedd am gyflwyno cais cynllunio yn ystod y cyfarfod.

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

13-06/20: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.05 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 14 Gorffennaf 2020**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **6 Gorffennaf 2020**

Atodiad 1

Adroddiad i gyfarfod y Cyngor Tref 16 Mehefin 2020 o faterion ers cyfarfodydd Mis Mawrth

Dyma'r materion sydd wedi codi ers cyfarfodydd Mis Mawrth, a'r penderfyniadau sydd wedi ei gymryd o dan reoliadau dirprwyo yn sgil Covid-19.

1. **Cynllun Cymorth COVID-19 y Cyngor Tref**

   Mae'n dda nodi fod pob dim yn ei le gyda'r cynllun i gynnig cymorth i drigolion dref Criccieth. Diolch yn fawr iawn eto i'r Cyng. Nan Davies-Hughes am ei gwaith yn cydgordio hyn ac i'r gwirfoddolwyr yn y gymuned. Mae ymateb a chefnogaeth busnesau'r dref i gynnig gwasanaeth yn wych ac mae mwy o fusnesau arlwyo wedi cychwyn agor ar gyfer bwyd i gasglu erbyn hyn. Diolch iddynt am ei gwasanaeth.

2. **Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2020 i'r Cyngor Tref**

   Yn dilyn llwyddiant y Cyngor Tref i ennill dwy wobr fenter orau gan Un Llais Cymru am y Fenter Twristiaeth Orau ac Adroddiad Blynyddol Gorau (ar y cyd gyda'r Drenewydd) mae dwy erthygl wedi ymddangos yn y Cambrian News a chydnabyddiaeth yn y Ffynnon. Mae nifer o lythyron a negeseuon llongyfarch wedi'i derbyn gan gynnwys yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas , Ms Liz Saville Roberts AS, Cadeirydd y Neuadd Goffa, Pennaeth Ysgol Treferthyr . Dywedodd Prif Weithredwr Un Llais Cymru, Mr Lyn Cadwallader "*Congratulations to you and your Council for its successes in* his *year's National Awards - your Council is a shining example of how very local councils are delivering high quality services to its residents - great work and keep it up."* Dywedodd y Cyng. Robert Cadwalader: "*Mae'n fraint mawr ennill y gwobrau yma gan Un Llais Cymru ac yn ffantastig gweld sut mae'r holl grwpiau ac aelodau yn y gymuned wedi gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwireddu hyn. Mae'r gwobrau yn hwb mawr i'r dref mewn cyfnod anodd iawn and yn dangos sut mae gweithio gyda'n dilyn yn dwyn ffrwyth. Yn 2019 enillodd y Cyngor Tref Fenter Dreftadaeth Orau Un Llais Cymru am brosiect "Cofio Cyfraniad Cricieth" i'r Rhyfel Mawr" a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol."*

3. **Cofio Cyfraniad Criccieth – Diwrnod VE 8 Mai 2020**

   Ers mis Ionawr mae Cyngor Tref Cricieth wedi gweithio ar brosiect gyda'r gymuned i baratoi ar gyfer cofio 75 mlynedd ers Diwrnod VE, 8fed Mai. O ganlyniad i'r pellhau cymdeithasol oherwydd COVID-19 cafodd gweithgareddau cymunedol i gynnwys te prynhawn i'r hen a'r ifanc yn y Neuadd Goffa, dadorchuddio wal o babis wedi'u gweu a chrochet ac arddangosfa ar y Stryd Fawr, eu gohirio. Fodd bynnag rhannwyd allbynnau o'n cyflawniadau gan gynnwys gwaith menig coch gyda phlant Ysgol Treferthyr. Mae fideo 3 munud o'r holl waith a baratowyd gan y Cyng. Ffion Gwyn wedi ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac YouTube Criccieth Life: Mi wnaeth Ffion hefyd baentio portread meddylgar "Ffenest/Window" i nodi'r achlysur. Mae'n ganlyniad i'n hamseroedd rhyfedd o bellhau cymdeithasol ac ynysu. Ond mae hefyd yn ein cludo'n ôl i'r ail ryfel byd ac i gofio am y rhai a gollwyd ac sydd wedi eu cofnodi

yn y Neuadd Goffa. Diolch yn fawr iawn i Ffion am ei gwaith ychwanegol ar y prosiect.
Yn ogystal cafwyd darllediad ar y prosiect ar rhaglenS4C Heno ar 8 Mai yn cynnwys Ffion a'r Clerc a hefyd neges o heddwch dwyieithog o Griccieth gyda'r wal o babis ar raglen BBC One yn cynnwys Ffion a Pam Mayo a gafodd ei ddarlledu yn y prynhawn. Cafwyd neges o ddiolch gan y BBC am y cyfraniad i'r rhaglen. Cafwyd sylw hefyd i waith y prosiect gan gylchgrawn "Golwg",papur newydd y Cambrian News a phapur bro'r Ffynnon.

4. Penderfyniad i ohirio Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref

Oherwydd COVID-19 ac mewn cydymffurfiaeth gyda rheoliadau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru penderfynwyd gohirio cynnal cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref a oedd i'w gynnal ar 12 Mai 2020. Golyga hyn bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a apwyntiwyd yng nghyfarfod Mai 2019 yn aros yn eu swyddi nes i ni gynnal cyfarfod blynyddol a bod aelodau'r is-bwyllgorau yn aros hefyd.

5. Proses i ddewis cwmni i ddarparu safle We newydd Cyngor Tref Criccieth

Mae'r Cyngor Tref wedi dirprwyo cyfrifoldeb i ddewis cwmni i ddarparu safle We newydd i'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol y Cyngor Tref. Mae'r is-bwyllgor wedi cytuno ar y broses. Mae angen i'r safle We fod yn hyfyw erbyn 23 Medi 2020. Mae'r broses ar waith a chyflwyniadau wedi eu trefnu gyda'r cwmnïau ar gyfer 23 a 29 Mehefin. Bydd adroddiad yn ôl i'r Cyngor yn dilyn penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Er mwyn paratoi ar gyfer y safle We newydd, mae'r Cadeirydd wedi cytuno i'r Clerc fynychu cwrs sydd ar lein gan y Society of Local Council Clerks: 'Creating Accessible Word and PDF documents: Getting the Basics Right' – cost £30 + TAW (£6.00)

6. **Trwydded ar y cyd dros dro ar gyfer yr Ardd Natur a'r Ardd Gloynod Byw**

Mae'r is-bwyllgor Cynllunio, Thrafnidiaeth a Mwynderau wedi cymeradwyo les dros dro ar y cyd rhwng y Cyngor Tref a Ffrindiau Gardd Natur. Roedd copi o'r les wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor a hefyd copi o'r asesiad risg. Mae'n dda cofnodi fod cais y Cyngor Tref am becyn lleol lleol gan Cadw Cymru'n daclus ar gyfer Gardd Natur Criccieth wedi bod yn llwyddiannus. Mae gobaith y bydd y gwaith am gychwyn rhywbryd ym Mis Mehefin gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru o ran defnydd offer PPE a chadw pellter gydag un aelod o Ffrindiau Gardd Natur a Swyddog Cadw Cymru'n daclus. Mae'r gwaith yn cefnogi cynllun bioamrywiaeth y Cyngor Tref a hefyd llesiant yn y gymuned.

7. Ceisiadau Cynllunio

Ymatebion a ddanfonwyd gan y Cyngor Tref yn dilyn ymgynghoriad ar e-bost:

(a) C20/0338/35/DT Ffenestr gromen newydd i'r drychiad gorllewinol cefn.
Dim gwrthwynebiad

(b) C20/0348/35/LL Defnyddio tir ar gyfer wersyllfa glampio amgen parhaol:

Danfon sylwadau - nid yw o fewn ffiniau'r Cyngor Tref ond mae pryder wedi'i fynegi am y fynedfa i'r lon a chonsyrn ei fod yn beryglus dros ben gan ei fod reit wrth ymyl pont Rhydybenllyg a hefyd ar gongl. A oes fwy o wybodaeth am faint o unedau glampio sydd yn rhan o'r cynllun?

(c) C20/0307/35/DT Addasu ac ymestyn modurdy i greu anecs, newidiadau i ddrychiadau ac estyniad llawr cyntaf
Danfon sylwadau: cwestiwn am ddefnydd yr anecs

(d) C20/0287/35/LL Dymchwel modurdy presennol a chodi uned gwyliau deulawr
Dim gwrthwynebiad

(e) C20/0290/35/LL Adeiladu 4 tŷ ynghyd a datblygiadau cysylltiol
Gwrthwynebiad: Consyrn mawr nad yw tai fforddiadwy i bobl ifanc yr ardal yn rhan o'r cynlluniau. Hefyd mae yna bryder am fynediad i'r safle sydd yn gul ac yn dod i'r lon fawr reit agos i le mae ceir yn parcio ar y Stryd Fawr sy'n lôn brysur iawn ar y gorau - mae hyn yn beryglus dros ben.

(f) C20/0315/35/LL Addasu caffi yn dŷ
Dim gwrthwynebiad

8. Clwb Drama Llanystumdwy

Wnaeth y Cyngor Tref gefnogi cais am gyllid (£200) gan Glwb Drama Llanystumdwy i gofio Pen-blwydd Wil Sam yn 100. Mae e-bost wedi dod i law i esbonio bod y trefniadau wedi'i gohirio oherwydd y Coronafeirws a'r bwriad yw ail-afael mewn pethau pan fydd modd gwneud hynny. Mae'r e-bost yn nodi "*Os bydd unrhyw newid i'r gwrthwyneb fe gysylltaf â chi a chawn gyfle i drafod ymhellach."* Os na fydd modd cynnal yr Ŵyl bydd modd i'r Cyngor Tref hawlio ad-daliad o'r cyllid.

9. Gwaith Cyngor Gwynedd

Da yw nodi'r canlynol:

a. Gwaith atgyweirio ar y Prom yn dilyn dinistr achoswyd gan y stormydd eleni sydd hefyd wedi cynnwys ail-osod y meinciau a oedd wedi difrodi yn 2014/15.
b. Groynes Traeth Min y Môr Criccieth - bydd gwaith i osod canllawiau iechyd a diogelwch y ddau strwythur (un ger Waen Helyg ac yn ym mhont Cwrt) yn digwydd yn yr wythnosau nesaf. Nid oes dyddiad pendant i'r gwaith ddechrau yn yr amodau presennol.
c. Bod y rhaglen torri gwair bellach yn weithredol
d. Bod e-bost wedi ei dderbyn yn esbonio'r sail mai Cyngor Gwynedd yn medru gweithredu ar geisiadau cynllunio a'r gallu i weithredu yn ddiogel yn sgil Rheoliadau Coronafeirws gan ddilyn arweiniad Prif Gynllunydd Llywodraeth

Cymru. Bydd gallu'r gwasanaeth i ddelio gyda cheisiadau a'u penderfyniadau yn ddigonol ar y gallu i weithredu'n ddiogel.

10. Derbyniadau a Thaliadau

Manylion wedi eu cylchredeg i aelodau ar e-bost cyn eu talu gan y Clerc

(a) Taliadau Ebrill 2020

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09(siec 101397)
- Cyflog y Clerc (Mawrth) £755.66 (siec 101398)
- Wales Print £72.80 (siec 101399)
- BHIB Ltd £1,338.56 (siec 101400)
- Dr Catrin Jones (Teithio ac Eraill) £200.41 (siec 101401)
- SLCC £44.00 (siec 101402)
- J.H.Williams £544.80 (siec 101403)*

(b) Derbyniadau a Thaliadau Mai 2020

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd Hanner Cyntaf Praesept 2020/21 £21,000

Taliadau Mai 2020

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £9.60 (siec 101404)
- Cyflog y Clerc (Ebrill) £780.15 (siec 101405)

11. Cais am ad-daliad TAW ar gyfer 2019-20

Cais am ad-daliad TAW am swm o £4631.94 wedi ei gyflwyno.

Dr Catrin Jones
Clerc y Cyngor Tref
10 Mehefin 2020